# CYNLLUNIAU MARCIO TGAU

**HYDREF 2022**

**TGAU**
**CYMRAEG IAITH - UNED 3**
**3000N30-1**

© WJEC CBAC Cyf.

**RHAGARWEINIAD**

Defnyddiwyd y cynllun marcio hwn gan CBAC ar gyfer arholiad 2022. Penderfynwyd arno'n derfynol yn dilyn trafodaeth fanwl mewn cynadleddau arholwyr gan yr holl arholwyr oedd yn ymwneud â'r asesiad. Cynhaliwyd y gynhadledd yn fuan ar ôl sefyll y papur fel y gellid cyfeirio at yr amrediad llawn o ymatebion ymgeiswyr, gyda sgriptiau wedi'u llungopïo yn sail i'r drafodaeth. Amcan y gynhadledd oedd sicrhau bod y cynllun marcio wedi'i ddehongli a'i gymhwyso yn yr un modd gan yr holl arholwyr.

Gobeithir y bydd y wybodaeth hon o gymorth i ganolfannau ond cydnabyddir ar yr un pryd y gallai fod gan athrawon safbwyntiau gwahanol ynglŷn â manylion neu ddehongli gan nad ydynt wedi bod yn rhan o'r gynhadledd farcio.

Mae'n flin gan CBAC ond nid oes modd iddo ymgymryd ag unrhyw drafodaeth na gohebiaeth am y cynllun marcio hwn.

© WJEC CBAC Cyf.

**CYNLLUNIAU MARCIO TGAU**

**CYMRAEG IAITH – UNED 3**

**HYDREF 2022**

**Adran A (Darllen): 30 marc**

**Darn Darllen 1** **Côr Cytgan Clwyd yn galw am aelodau newydd**

**A1.** Ar ba noson mae'r côr yn ymarfer? [1]

Nos Iau
Adalw gwybodaeth

**A2.** Pwy yw aelodau'r côr? Rhowch ✓yn y blwch priodol. [1]

Disgyblion uwchradd ✓
Adalw gwybodaeth

**A3.** Enwch **un** dechneg i berswadio sy'n cael ei defnyddio yn yr hysbyseb a rhowch enghraifft ohoni. [1]

| **Techneg** | **Enghraifft** |
|---|---|
| Cwestiwn Rhethregol | Ydych chi'n hoffi canu ac yn ddisgybl ysgol uwchradd? |
| Rhestru | Y 3 cwestiwn rhethregol ar y dechrau / ysgafn, modern i'r clasurol a'r gwerin traddodiadol |
| Ansoddair | Croeso cynnes, cydganu hwyliog |
| Cyfarch | Ydych chi ... |
| Berf Orchmynnol | Dewch |

Adnabod techneg

**A4.** Pa mor llwyddiannus yw'r dechneg? [2]

| | |
|---|---|
| **0 marc** | Dim i'w wobrwyo/effaith nad yw'n esbonio'r dechneg benodol a ddewiswyd e.e. "Mae'n gwneud i mi feddwl" |
| **1 marc** | Esbonio effaith y dechneg ar lefel syml ac yn fyr/effaith arwynebol ond yn benodol i'r dechneg a ddewiswyd |
| **2 farc** | Esboniad manwl o effaith y dechneg gyda'r drafodaeth yn argyhoeddi Rhaid i'r trafod gysylltu â'r darn. |

Gwerthuso



© WJEC CBAC Cyf.

**Darn Darllen 2 Annwyl Doctor Alaw**

**A5.** Mae pedwar o'r datganiadau isod yn gywir am sut i gymryd gofal o'r llais. Mae un ateb cywir wedi ei roi i chi'n barod. Rhowch ✓ yn y blychau gyferbyn â'r **tri** sylw cywir arall. [3]

| | |
|---|---|
| Mae angen cynhesu'r llais cyn canu, yn union fel mae athletwyr proffesiynol yn ymestyn a chynhesu eu cyhyrau. | ✓ |
| Mae diffyg cwsg yn effeithio'n negyddol ar y llais. | ✓ |
| Mae yfed dŵr a phop yn hydradu'r corff ac yn iro tannau'r llais . | |
| Os yw'r llais yn gryg mae'n bwysig osgoi sefyllfaoedd swnllyd. | ✓ |
| Mae siarad dros y ffôn yn well na siarad wyneb yn wyneb er mwyn gofalu am lais blinedig. | |
| Os yw'r llais wedi blino y peth gorau i'w wneud yw sibrwd. | |
| Mae'r asidau a gynhyrchir gan y stumog ar ôl bwyta bwydydd sbeislyd yn amharu ar gyflwr y llais. | ✓ |

Dewis 4 – tynnu 1 marc
Dewis 4+ - 0 marc
Dehongli gwybodaeth

**Darn Darllen 3 No wê!**

**A6.** Pa **un** o'r gosodiadau isod sy'n dangos rhagfarn Laura Wyn? Rhowch ✓yn y blwch cywir. [1]

| | |
|---|---|
| Dw i'n gwybod yn iawn bod y sŵn dwi'n ei wneud wrth ganu yn debyg i sgrech tylluan yn cael ei chrogi gan weiren bigog. | |
| Fedra' i ddim darllen cerddoriaeth na chofio geiriau'n hawdd, ac mae 'nghoesa i'n troi'n jeli wrth ddarllen yn Gwasanaeth o flaen pawb. | |
| A'r unig reswm maen nhw'n mynd yn selog ydy er mwyn lle hefyd yn y Côr SATB a chael fflyrtio efo baswyr y 6ed. | ✓ |
| Mae gan robot fwy o rythm na fi! | |

Adnabod rhagfarn



© WJEC CBAC Cyf.

**A7.** Sut mae Laura Wyn yn dangos ei hagwedd tuag at ymuno â'r côr merched? [8]

| | |
|---|---|
| **0 marc** | Dim ateb/ateb amherthnasol |
| **1-2 marc** | Peth ymdrech i drafod arddull/technegau'r testun yn fras |
| **3-4 marc** | Ymdrech eithaf da i drafod arddull/technegau a ddefnyddir yn y testun gan gynnwys ambell enghraifft/dyfyniad a dechrau dadansoddi / dadansoddi'n eithaf da |
| **5-6 marc** | Trafod arddull/technegau yn dda / da iawn gan gynnwys rhai enghreifftiau/ dyfyniadau a dadansoddi'n dda/da iawn |
| **7-8 marc** | Trafod arddull/technegau yn ddeallus gan gynnig dyfyniadau/ cyfeiriadau yn gyson a dadansoddi'n hyderus |

Gellir cyfeirio at y canlynol:

| | |
|---|---|
| **Agwedd negyddol** | |
| **Agwedd feirniadol/sarhaus** | |
| **Ebychiadau** | O basa! Ma hi'n despret! |
| **Tafodiaith/Iaith anffurfiol** | |
| **Bratiaith** | Despret/*boring*/*lame/*fflyrtio/breibio |
| **Cymariaethau** | Yn debyg i sgrech tylluan yn cael ei chrogi gan weiren bigog/<br>Mrs Lloyd yn chwifio fel melin wynt mewn storm |
| **Cwestiwn rhethregol** | I be dw i isio gwastraffu amser cinio …? /<br>A be tasan ni'n gorfod clapio neu symud neu rwbath? |
| **Rhestru** | genod ffêc-tan, gwallt melyn-potel a bresys clir/<br>trefniant o gân bop Gymraeg o'r 80au mor *lame*, canu trefniant o emyn mor hen ffasiwn a chanu darn clasurol mor *boring/*<br>lleisiau sy'n crynu fel Nain, yn trio asio eu lleisiau ac yn canu nodau sydd yn rhy uchel i gi eu clywed, yn gwneud stumiau gwirion a chau llygaid i drio profi eu bod nhw'n "teimlo'r geiriau" |
| **Ailadrodd** | genod bach da, genod bach ufudd |
| **Ansoddeiriau** | *Lame*/hen ffasiwn/*boring* |
| **Trosiad** | mae 'nghoesau i'n troi'n jeli |

Gellir cyfeirio at bwyntiau eraill perthnasol.


Dadansoddi /gwerthuso



© WJEC CBAC Cyf.

**Darn Darllen 4** **Canu'n Iach**

**A8.** Mae canu yn gwella iechyd y corff. Rhowch linellau clir a thaclus i gysylltu'r weithred gyda'r canlyniad. Mae un wedi'i gysylltu eisoes. [2]




| | |
|---|---|
| **0-1** | 0 marc |
| **2-3** | 1 marc |
| **4** | 2 farc |

Adalw a dehongli gwybodaeth

**Darn Darllen 5** **Only Boys Aloud**

**A9.** Pa **un** o'r datganiadau canlynol sy'n gywir? Rhowch ✓ yn un o'r blychau. [1]

| | |
|---|---|
| Bu Elliot yn rhan o OBA am dair blynedd. | ✓ |

Adalw a dehongli gwybodaeth

**Darn Darllen 6** **Cythraul Canu ar y Teras**

**A10.** Beth yw ystyr yr ymadrodd "Cythraul Canu"? [2]

Agwedd o genfigen/drwgdeimlad yn bodoli rhwng dau unigolyn/dwy garfan o ganlyniad i gystadleuaeth.

| | |
|---|---|
| **0 marc** | Dim i'w wobrwyo/esboniad anghywir |
| **1 marc** | Esboniad syml ond arwynebol/esboniad rhannol gywir |
| **2 farc** | Esboniad manwl |

Esbonio ystyr gair



© WJEC CBAC Cyf.

**Darnau Darllen 4,5 a 6** **Canu'n Iach**
**Only Boys Aloud**
**Cythraul Canu ar y Teras**

**A11.** Mae canu mewn côr yn gallu dod â llawer o fanteision i unigolion a chymdeithasau.

**Cyfunwch a chrynhowch wybodaeth** o'r tri darn darllen i brofi y buddion mae'n bosib eu cael drwy ganu mewn côr. [8]

| Darn 4 | Darn 5 | Darn 6 |
|---|---|---|
| Lleihau'r cyfle i facteria ffynnu yn y trwyn a'r gwddf ac felly'n atal annwyd a ffliw | Cael y cyfle i wneud yr hyn rydych yn ei garu, gyda phobl arbennig yn rhai o leoliadau mwyaf mawreddog y DU a thu hwnt | Dod â dwy gymuned/dau bentref/dau dîm pêl-droed at ei gilydd |
| Gwella'r gallu i ganolbwyntio ac yn gwella'r cof | Bod ar lwyfan/teledu yn gwella sgiliau siarad cyhoeddus | Ffordd o gael hwyl - digon o dynnu coes a dychan |
| Anadlu'n ddyfnach er mwyn cymryd mwy o ocsigen i mewn i'r corff ac o ganlyniad yn datblygu ysgyfaint iach | Dysgu sut i gyfleu neges yn effeithiol a magu hyder o flaen cynulleidfa | Côr pêl-droed yn ddathliad o'r pentrefi a phobl y gymuned sy'n gweithio mor galed i gefnogi'r timau |
| Mae osgo'r corff yn gwella drwy ehangu'r frest, a sythu'r cefn ac ysgwyddau. | Datblygu sgiliau ar gyfer gwaith yn y dyfodol | Cymuned yn perthyn i bob tîm pêl-droed, yn union fel y gymuned sydd o fewn côr |
| Profiad emosiynol, cadarnhaol a hwyliog sy'n dileu negyddiaeth ac yn gostwng lefelau pryder | Mae profi'r cyfeillgarwch yn ystod profiadau gwirioneddol unigryw yn rhywbeth a fydd yn aros am byth! | Dod â phobl sydd â rhywbeth yn gyffredin at ei gilydd e.e. merched sydd wedi cael eu cyffwrdd gan gancr y fron, dysgwyr Cymraeg yn ardal Sir Benfro, gwirfoddolwyr y gwasanaethau brys ym Mhen Llŷn |
| Cynyddu curiad y galon ac o ganlyniad yn lleihau pwysedd gwaed | Cael cyfleoedd na fyddai rhywun erioed wedi meddwl eu bod yn bosib | Mae 'na chwerthin a dagrau, ac mae'r canu yn dod o'r enaid |
| Cryfhau cyhyrau'r stumog | | Holl aelodau yn gwenu'n syth ar ôl gorffen canu |
| Gwella cylchrediad y gwaed sy'n cario mwy o ocsigen i'r celloedd ac felly'n rhoi hwb i'r system imiwnedd | | Canu mewn côr yn llesol |



© WJEC CBAC Cyf.

Agweddau posib i dynnu gwybodaeth ynghyd a dehongli

- Buddion cymunedol e.e. dod â phobl at ei gilydd
- Buddion iechyd corfforol e.e. datblygu’r ysgyfaint, lleihau pwysau gwaed
- Buddion iechyd meddyliol e.e. datblygu’r cof
- Buddion iechyd emosiynol e.e. hwyl a chwerthin yn arwain at ostwng lefelau pryder
- Datblygu sgiliau e.e. siarad cyhoeddus, magu hyder
- Datblygu cyfeillgarwch e.e. rhannu profiadau

Gellir cyfeirio at bwyntiau eraill perthnasol.

| | |
|---|---|
| **0 marc** | Os na cheir ymdrech i ateb y cwestiwn |
| **1 marc** | Peth ymdrech i gyfuno gwybodaeth o'r testunau drwy restru’r buddion (1-4) |
| **2 farc** | Peth ymdrech i gyfuno gwybodaeth o'r testunau drwy restru’r buddion (5-8) |
| **3 marc** | Ymdrech eithaf da i gyfuno gwybodaeth o'r testunau wrth restru’r buddion (9+) |
| **4 marc** | Ymdrech eithaf da i gyfuno gwybodaeth o'r testunau wrth restru’r buddion a dechrau dehongli'r wybodaeth yn arwynebol |
| **5 marc** | Cyfuno gwybodaeth o'r testunau yn dda a dehongli'r wybodaeth yn gyson |
| **6 marc** | Cyfuno gwybodaeth o'r testunau yn dda iawn a dehongli'r wybodaeth yn bwrpasol |
| **7-8 marc** | Cyfuno gwybodaeth o'r testunau yn aeddfed gan ddehongli'r wybodaeth yn aeddfed a threfnus |

Cyfuno, dehongli a chrynhoi


© WJEC CBAC Cyf.

**Cwestiwn B1 a B2** **(20 marc)**

| | *CYFATHREBU A THREFN (YSTYR, PWRPASAU, DARLLENWYR a STRWYTHUR)* | *YSGRIFENNU'N GYWIR (IAITH, GRAMADEG, SILLAFU AC ATALNODI)* |
|---|---|---|
| **Band 5** | **9-10 marc**<br>• Ysgrifennu aeddfed a threiddgar<br>• Ysgrifennu effeithiol sy'n cynnal diddordeb y darllenydd trwy gydol y darn<br>• Addasu'r cywair priodol yn hyderus i'r pwrpas/cynulleidfa<br>• Datblygu syniadau yn argyhoeddiadol gyda manylder, gwreiddioldeb a dychymyg<br>• Adeiladwaith sicr a chydlynol; strwythur soffistigedig i'r ysgrifennu | **9-10 marc**<br>• Defnyddio ystod eang o eirfa heriol ac addas yn hyderus i greu effaith neu i gyfleu ystyr benodol gywir<br>• Gafael sicr iawn ar ramadeg<br>• Defnyddio amrywiaeth o frawddegau addas ac effeithiol<br>• Defnydd eang o gystrawennau cywir<br>• Defnydd hyderus a chywir o ystod o atalnodi<br>• Sillafu yn gywir bron yn ddieithriad<br>• Gafael sicr iawn ar dreigladau<br>• Gafael sicr iawn ar ferfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid |
| **Band 4** | **7-8 marc**<br>• Ysgrifennu sy'n dangos yn glir y gallu i ddewis a dethol syniadau perthnasol a phriodol<br>• Ysgrifennu sy'n dangos dealltwriaeth sicr sut i ddal diddordeb y darllenydd<br>• Addasu'r cywair yn briodol a chyson i'r pwrpas/ cynulleidfa<br>• Datblygu syniadau gyda manylder sy'n argyhoeddi a cheir peth gwreiddioldeb a dychymyg<br>• Ysgrifennu wedi ei strwythuro'n bwrpasol a'i drefnu'n eglur i roi dilyniant rhwydd a llyfn | **7-8 marc**<br>• Defnyddio ystod eang o eirfa yn gywir<br>• Gafael sicr ar ramadeg<br>• Defnyddio amrywiaeth o frawddegau i greu effeithiau arbennig<br>• Defnyddio ystod dda o gystrawennau'n gywir<br>• Defnydd cywir o ystod o atalnodi<br>• Sillafu sicr<br>• Gafael sicr ar dreigladau<br>• Gafael sicr ar ferfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid |
| **Band 3** | **5-6 marc**<br>• Ysgrifennu cydlynol a diddorol ar y cyfan<br>• Ymwybyddiaeth glir sut i ddal diddordeb y darllenydd<br>• Cywair yn briodol ac yn addas ar y cyfan i'r pwrpas/ cynulleidfa<br>• Syniadau sy'n dangos datblygiad a cheir rhai cyffyrddiadau diddorol yn yr ysgrifennu<br>• Gwaith trefnus sy'n rhoi dilyniant a strwythur | **5-6 marc**<br>• Defnyddio ystod dda o eirfa yn eithaf cywir<br>• Gafael gyson ar ramadeg ar y cyfan<br>• Defnyddio amrywiaeth o frawddegau<br>• Defnyddio ystod o gystrawennau'n gywir ar y cyfan<br>• Defnydd cywir ar y cyfan o ystod o atalnodi<br>• Sillafu mwyafrif y geiriau'n gywir<br>• Mwyafrif y treigladau yn gywir<br>• Mwyafrif y berfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid yn gywir |



© WJEC CBAC Cyf.

| | ***CYFATHREBU A THREFN (YSTYR, PWRPASAU, DARLLENWYR a STRWYTHUR)*** | ***YSGRIFENNU'N GYWIR (IAITH, GRAMADEG, SILLAFU AC ATALNODI)*** |
|---|---|---|
| **Band 2** | **3-4 marc**<br>• Peth ysgrifennu cydlynol<br>• Peth ymwybyddiaeth o sut i greu effaith i ddal diddordeb y darllenydd<br>• Ymdrech glir i addasu cywair i bwrpas/darllenydd<br>• Datblygu rhai syniadau gydag ambell gyffyrddiad diddorol<br>• Peth trefn ar y gwaith a pheth dilyniant i syniadau | **3-4 marc**<br>• Defnyddio peth ystod o eirfa<br>• Gafael anghyson ar ramadeg<br>• Amrywio brawddegau rywfaint<br>• Peth gafael ar gystrawen<br>• Peth gafael ar ystod o atalnodi<br>• Sillafu yn eithaf cywir<br>• Treigladau yn eithaf cywir<br>• Berfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid yn eithaf cywir |
| **Band 1** | **1-2 marc**<br>• Ysgrifennu cydlynol elfennol<br>• Ymwybyddiaeth gyfyngedig o'r darllenydd<br>• Peth ymdrech i addasu cywair i bwrpas/cynulleidfa<br>• Peth cynnwys perthnasol er yn anghyson<br>• Trefn elfennol a dilyniant syml i syniadau | **1-2 marc**<br>• Ystod gyfyngedig o eirfa<br>• Gafael gyfyngedig ar ramadeg<br>• Defnyddio ystod gyfyngedig o frawddegau<br>• Gafael gyfyngedig ar gystrawen<br>• Peth ymdrech i atalnodi<br>• Sillafu rhai geiriau yn gywir<br>• Gafael gyfyngedig ar dreigladau<br>• Gafael gyfyngedig ar ferfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid |
| | Dim sy'n haeddu ei wobrwyo | |



© WJEC CBAC Cyf.